## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **27 Hydref 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **Siambr y Cyngor / Cynhadledd Fideo o Bell** |
| **TEITL:** | **Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft 2022-27** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I gyflwyno'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027 gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol** |
| **Y RHESWM MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **I ystyried y Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027, gan gynnwys drafft yr Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd cyn cyflwyno i Gabinet a'r Cyngor am gymeradwyaeth terfynol** |
| **PORTFFOLIO'R CABINET AC AELOD Y CABINET:** | **Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet i Wasanaethau Democrataidd a Pholisi, Perfformiad a Phartneriaethau** |

**CEFNDIR:**

Yn dilyn yr etholiadau lleol yn Mai 2022, mae angen Strategaeth Gorfforaethol newydd i osod allan Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd y Cyngor (blaenoriaethau corfforaethol) ac yr uchelgeisiau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth yn dangos sut bydd y cyngor yn edrych i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion a chymunedau Ceredigion a hefyd i uchafu ar ein cyfraniad tuag at y saith Nod Llesiant Cenedlaethol yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027 nawr wedi'i pharatoi ac mae'n gosod allan yr Amcanion Llesiant Corfforaethol arfaethedig am y pum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft wedi atodi fel Atodiad 1.

Pwrpas craidd y Strategaeth Gorfforaethol yw nodi sut bydd yr awdurdod yn cefnogi ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd a llesiant dinasyddion Ceredigion, trwy ei weledigaeth tymor hwy a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Yr Amcanion Llesiant Corfforaethol arfaethedig ydy:

- **Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth**
- **Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach**
- **Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu**
- **Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd**

Mae’r rhain wedi'i nodi trwy ddadansoddiad helaeth o ddata ac ymgysylltu gyda phreswylwyr, gan gynnwys uchelgeisiau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd, Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion a’r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar y strategaeth ddrafft.

Mae’r amcanion hefyd wedi’i nodi trwy weledigaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd hyn yn cynnwys adnabod sut mae modd i ni uchafu ein cyfraniad at yr amcanion llesiant cenedlaethol a hefyd sicrhau ein bod ni’n defnyddio’r egwyddor datblygu gynaliadwy i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael ei chyrraedd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau’r dyfodol i gyrraedd anghenion ei hunan.

Mae’r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft yn cynnwys cynllun gweithredu sydd yn manylu’r camau angenrheidiol er mwyn cyflawni pob un o’r Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae cynnydd yn cael ei adolygu pob blwyddyn a fydd hyn yn cael ei chyhoeddi yn Adroddiad Hunan Asesu’r Cyngor.

Ymgynghorwyd ar y Strategaeth ddrafft a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol rhwng 24 Awst a 30 Medi 2022. Mae Adroddiad Adborth yr Ymgynghoriad ynghlwm yn Atodiad 2. Mae unrhyw ddiwygiadau o'r ymgynghoriad wedi'u hymgorffori yn y ddogfen derfynol.

**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam**

Oes

***Crynodeb:*** Mae ein holl Flaenoriaethau yn ceisio sefydlu Cymru fwy Cyfartal drwy sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer cyflogaeth, tai, addysg, ffyrdd iachach o fyw a chymunedau cynaliadwy.

**LLESIANT CENEDLAETHAU DYFODOL:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn edrych ar y Blaenoriaethau ar gyfer y Cyngor am y 5 mlynedd nesaf. Mae’r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd yn ceisio gwneud y mwyaf o’r cyfraniad a wneir i’r saith nod llesiant. |
| **Integreiddio:** | Mae'r blaenoriaethau gyda'i gilydd yn ceisio effeithio ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y bobl. |
| **Cydweithio:** | Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ar ddarparu gwasanaethau yn elfen bwysig o'r Strategaeth. |
| **Cynnwys:** | Rhoddwyd ystyriaeth i uchelgeisiau'r weinyddiaeth newydd, gweithdy Rheolwyr Corfforaethol, Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion a'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Atal:** | Mae pob un o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol yn ceisio ymgorffori'r agenda atal. |

| | |
|---|---|
| **ARGYMELLION:** | Bod yr Aelodau'n ystyried ac yn cytuno ar Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027 gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol cyn i'r Cabinet a'r Cyngor ei hystyried. |
| **RHESWM DROS YR ARGYMELLION** | Er mwyn bwrw ymlaen â pharatoi Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027. |
| **Atodiadau:** | Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-27<br>Strategaeth Gorfforaethol 2022-27 - Adroddiad Adborth Ymgynghori |
| **Enw Cyswllt:** | Rob Starr |
| **Dynodiad:** | Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 27 Hydref 2022 |